



Social & Local™

Rheoleiddio Ein Dyfodol

Ymgynghoriad â Busnesau Bach a
Chanolig: Adroddiad Cryno

Mawrth - Mehefin 2017

Ein dull ni o weithio

Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd am sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd sy'n fusnesau bach a chanolig yn cael y cyfle i roi mewnbwn ar ddull rheoleiddio bwyd y dyfodol.

- Fel rhan o'u hymgyngoriad *Rheoleiddio Ein Dyfodol*, comisiynwyd Social & Local CIC i ymgysylltu â chyrrff masnach a'u helpu wrth gofnodi safbwyntiau'r aelodau, gan flaenoriaethu busnesau bach a micro. Cynigiwyd cyllid er mwyn talu am waith ymchwil a gwaith gweinyddol.
- Gofynnwyd i'r cyrrff masnach am y dull mwyaf effeithiol o ymchwilio safbwyntiau eu haelodau. Yna, aethom ati i gydweithio â nhw er mwyn llunio eu dull ymchwil, gan sicrhau ei fod yn hygyrch ac yn denu sylw cymaint o'u haelodau â phosibl. Dewisodd y rhan fwyaf o'r aelodau arolwg fel y dull mwyaf ymarferol, ac roedd cyfle yn yr arolwg i aelodau i nodi sylwadau.
- Casglwyd safbwyntiau 623 o weithredwyr busnesau bwyd bach a chanolig rhwng 21 Ebrill a 31 Mai 2017.



Pwy oedd yn cymryd rhan

Sefydliad	Aelodau	Ymatebion	Methodoleg
Cymdeithas Arlwywyr Ledled y Wlad (NCASS)	4,500	200	e-arolwg i aelodau gyda gwobr fel cymhelliad
Ffederasiwn Masnach Bwydydd (PTF)	120 (56 ohonynt yn fusnesau bach a chanolig)	8	e-arolwg i aelodau
Cymdeithas Gwneuthurwyr Cawsiau Arbenigol (SCA)	210	31	e-arolwg i aelodau gydag arian fel cymhelliad
Ffederasiwn Arlwyo Asiaidd (ACF)	8,000	384	Arolwg – drwy e-bost ac mewn grwpiau, gyda gwobr fel cymhelliad
Cyfanswm	12,830	623	

Wedi gwrthod: Cymdeithas Lletygarwch Prydain

Heb ymateb: Ffederasiwn Ffrïwyr Pysgod Cenedlaethol, Ffederasiwn Masnachwyr Marchnad Cenedlaethol



Prif ganfyddiadau – crynodeb

- Cafwyd ymateb **cadarnhaol i'r syniad o 'Gofrestru Manylach'**; gyda nifer sylweddol yn gefnogol iawn – ond mynegwyd pryderon ynghylch goddrychedd, baich gweinyddol neu gost ychwanegol, a chwestiynau am ei berthnasedd penodol i'w math nhw o fusnes.
- O ran y broses gofrestru, mae ymatebwyr **yn gryf o blaid dull digidol**, gyda chyfartaledd o 63%* yn ffafrio cofrestru ar-lein
 - Er, dylid parhau i gynnig papur fel dewis
- **Hoffai** ymatebwyr i'r **ASB wirio'u manylion bob blwyddyn (cyfartaledd o 45%*) i ddwy flynedd (cyfartaledd o 32%*)** – gyda'r mwyafrif yn ffafrio *bob blwyddyn*.
- **Roedd segmentu yn ôl risg yn apelio'n gryf** i ymatebwyr, ac eithrio aelodau'r ACF (dylid nodi mai'r ACF oedd yr unig sefydliad a gymerodd ran a oedd yn cynrychioli'r sector bwytai)
 - Roedd aelodau'r ACF a oedd yn gadarnhaol yn credu y byddai'n cynnal safonau eithriadol o uchel; safbwynt a adlewyrchwyd gan aelodau PTF, NCASS a SCA hefyd.
 - Roedd rhai yn pryderu am fiwrocratiaeth a 'stelcian'



Noder: er rhoddir gwerthoedd % i hwyluso cyfeirio a chymharu, ni ystyrir cyfanswm y niferoedd a oedd yn ymateb o bob sefydliad yn arwyddocaol o safbwynt ystadegau, ac maent yn dynodi canfyddiad cadarnhaol neu negyddol yn unig

A community interest company

Prif ganfyddiadau – crynodeb

- **Mae cymorth a chyngor busnes yn rhan allweddol o'r dull rheoleiddio newydd**, gan gofio nifer uchel y gweithredwyr busnesau bwyd sy'n fusnesau bach a chanolig sy'n gorfod hyfforddi a gwella sgiliau eu staff eu hunain
 - Yng nghyd-destun materion 'pobl', cyfeiriwyd at 'Recrwitio'r staff cywir' ac 'Ymddiried mewn cyflenwyr' fwyaf aml fel yr heriau sy'n wynebu diogelwch bwyd; gydag arlwywyr symudol yn ychwanegu 'gallu fforddio'r offer cywir'
- **Roedd ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol am ymarferoldeb y dull presennol**; er bod teimladau ymatebwyr bod diffyg gwybodaeth ymhlith EHOs a phwysau ar adnoddau yn cael effaith negyddol
- Roedd y gweithredwyr busnesau bwyd hynny a oedd yn rhan o'r **Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)** yn ei weld **yn rhywbeth gwerthfawr**.
 - O'r ddau sefydliad sydd â'r nifer fwyaf o aelodau o fewn y cynllun, rhoddodd 68% ohonynt (cyfartaledd) y sgôr uchaf bosibl iddo
 - Nid yw'r cynllun yn berthnasol i nifer o ymatebwyr o'r PTF a'r SCA



Noder: er rhoddir gwerthoedd % i hwyluso cyfeirio a chymharu, ni ystyrir cyfanswm y niferoedd a oedd yn ymateb o bob sefydliad yn arwyddocaol o safbwynt ystadegau, ac maent yn dynodi canfyddiad cadarnhaol neu negyddol yn unig

A community interest company

A large, stylized green ampersand graphic is positioned on the left side of the page, partially cut off by the edge. It has a thick, rounded stroke and a white cutout in the center.

Sylwadau pellach

Social & Local™

Teimladau cadarnhaol am Gofrestru Manylach

Cofrestru Manylach:

- Roedd busnesau bach a chanolig yn teimlo y byddai 'Cofrestru Manylach' yn "gwella ymwybyddiaeth gyffredinol o berchnogion busnesau" ac yn gwella diogelwch yn y tymor hir.
- Byddai hefyd yn "arwain at fwy o waith cynllunio ym maes diogelwch bwyd, yn ogystal â rhagor o dryloywder mewn perthynas â pherchnogaeth a rheoli".

"Mae'n ymddangos yn rhesymegol iawn"

"Rwyf o blaid proses gofrestru fanylach, cyn belled â nad yw'n troi'n rhwystr i ddechrau busnes."

"Mae'n ymddangos fel y peth cywir i'w wneud er mwyn atal busnesau bwyd israddol rhag dechrau ac achosi problemau posibl."

"Byddai'r dull cofrestru manylach arfaethedig yn golygu bod y diwydiant yn fwy agored a byddai'n cynyddu safon a gwaith monitro ansawdd bwyd a materion iechyd."



Ffactorau sy'n effeithio'n negyddol ar agweddau tuag at Gofrestru Manylach

Cofrestru Manylach:

- Fodd bynnag, roedd y rheiny nad oedd yn hoff o Gofrestru Manylach yn pryderu am y llwyth gwaith a mân reolau ychwanegol, yn arbennig lle'r oedd gwybodaeth yn gyhoeddus yn barod.
- Hefyd, roedd rhai'n teimlo y gallai gofyn i berchnogion busnes ddarparu gwybodaeth, neu 'hunan-asesu', am eu profiadau er enghraifft, fod yn rhy oddrychol, gyda pherchnogion busnesau yn goramcangyfrif eu gallu ac yn tanamcangyfrif risgiau.

"Teimladau cymysg – gallai'r system fod yn well, ond nid wyf wir o blaid rhagor o fiwrocratiaeth."

"Rwy'n poeni am y costau ychwanegol i fusnesau bach a'r tuedd tuag at hunan-reoleiddio...Nid wyf yn credu bod y dull presennol yn aneffeithiol, neu ei fod o wedi torri."

Ystyriaethau i'r ASB

- Er bod teimladau cadarnhaol tuag at 'gofrestru manylach', dylid profi'r manylion penodol (ar ôl eu llunio) eto â busnesau bach a chanolig er mwyn cael rhagor o adborth.



Teimladau cadarnhaol am Segmentu yn ôl Risg

Segmentu yn ôl risg: Hysbyswyd ymatebwyr y byddai'r manylion ychwanegol a gesglir fel rhan o'r dull cofrestru manylach hefyd yn cael eu defnyddio gan yr ASB i segmentu busnesau yn ôl risg. Yna, aethpwyd ati i'w holi pa mor apelgar fyddai hynny.

- **PTF:** Roedd cytundeb cyffredinol yr aelodau yn nodi y byddai dull seiliedig ar risg mewn perthynas ag amlder arolygiadau **yn syniad da**, gan alluogi adnoddau gorfodi cyfyngedig i ganolbwyntio ar fusnesau â hanes cydymffurfio gwael.
- Hefyd, soniwyd am faich archwilio ac amlder eithafol archwiliadau cwsmeriaid a thrydydd parti, a allai gael eu defnyddio gan yr ASB i gefnogi cysyniad 'ennill cydnabyddiaeth'* ar gyfer busnesau sy'n cydymffurfio.
- **NCASS:** Roedd llawer o arlwywyr newydd, a oedd o blaid segmentu yn ôl risg, yn pryderu y gallai masnachwyr llai profiadol gael eu cosbi a bod yn destun gwahaniaethau.
- Roedd masnachwyr sy'n cael sgôr CSHB o 5* yn gyson o blaid segmentu yn ôl risg, gan ddadlau y byddai'n *'dda i ymddiried mewn busnesau sydd wedi cael sgoriau hylendid da yn gyson.'*
- Roedd cysondeb wrth siarad ag arlwywyr â busnesau 'risg isel', megis delis, eu bod o blaid segmentu yn ôl risg, ac roeddent yn teimlo bod eu trin nhw yn yr un ffordd â busnesau 'risg uchel', megis gwerthwyr cig, yn ofer ac yn wastraff adnoddau.

*Roedd aelodau PTF o'r farn y dylid ystyried a chydabod archwiliadau diogelwch bwyd megis BRC a SALSA pe baent yn cael eu segmentu yn ôl risg. Roeddent yn cyfeirio at hyn fel 'ennill cydnabyddiaeth'.



Sylwadau ar Segmentu yn ôl Risg

"Er ein bod yn cynhyrchu bwyd a ystyrir i fod yn risg uchel, o ganlyniad i'n profiad a'n diwydrwydd, ychydig iawn o broblemau sy'n codi, a byddem yn disgwyl i hynny gael ei adlewyrchu yn y sgôr risg a roddir i ni."

"Rydym yn fusnes bwyd môr risg uchel, a bydden yn croesawu unrhyw wiriadau a fydd yn cynnal safonau uchel."

"Ni fyddai modd asesu risg busnes yn wrthrychol drwy ddefnyddio'r wybodaeth y mae gweithredwr y busnes bwyd wedi'i darparu yn unig."

"Byddai hyn yn rhoi llai o faich ar y cynhyrchydd/gwerthwr bwyd, yn arbennig ar gyfer cynhyrchwyr llai, ar yr amod eu bod yn parhau i gael sgôr CSHB uchel."

"gormod o stelcian"



Teimladau cymysg am Segmentu yn ôl Risg

- **ACF:** Dywedodd aelodau "byddai gwybodaeth gan Gyngorau Lleol a/neu'r ASB i'w cefnogi yn ddefnyddiol e.e. byddai rhestr wirio chwarterol ar gyfer yr hanfodion hylendid bwyd yn eu helpu i roi gwell fesurau diogelwch bwyd ar waith yn eu safleoedd."

Ystyriaethau i'r ASB

- Mae angen rhagor o fanylion a thystiolaeth er mwyn darbwyllo'r ymatebwyr goddefol a negyddol am sut mae cyrraedd y penderfyniad ar risg er mwyn eu sicrhau mai nad y 'Brawd Mawr' neu wladwriaeth faldodus sydd y tu ôl i hyn.



Yr heriau mwyaf wrth sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label

Dywedodd bron pob un bod **ymdiried yn eu cyflenwyr** yn broblem i'w busnes. Soniodd gwahanol sefydliadau am broblemau eraill, gan gynnwys:

ACS: Dywedodd aelodau mai 'recriwtio'r staff cywir' a 'chael yr hyfforddiant diogelwch bwyd cywir' yw eu prif heriau.

PTF: Dywedodd aelodau mai gwella sgiliau a hyfforddi staff ar ddiogelwch bwyd a rheoli un ai yn fewnol neu drwy ddefnyddio cwmni allanol oedd eu prif heriau. Soniodd nifer sylweddol eu bod yn defnyddio deunyddiau ar-lein i ddatblygu system rheoli diogelwch bwyd.

NCASS: Dywedodd aelodau mai gallu fforddio'r offer cywir oedd eu prif her.



Yr heriau mwyaf wrth sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label

SCA: Roedd cost profi laeth a chaws mewn labordai yn her i'w haelodau gan ei fod yn benodol i'w sector.

"Cael mynediad at brofion labordy sy'n fforddiadwy, yn lleol ac yn angenrheidiol."

"Nid yw'r un ohonynt yn rhwystrau i fy musnes. Er enghraifft, nid wyf erioed wedi gwneud caws o laeth ceffyl ar ddamwain oherwydd cyflenwr twyllodrus. Yn fy marn i, y prif rwystr i'n math ni o fusnesau yw pan gaiff cyfreithiau a rheoliadau cenedlaethol nad ydynt yn gyson â thystiolaeth ystadegol a gwyddonol eu dehongli'n wael ar lefel leol."

ACF: 'recriwtio'r staff cywir', 'ymddiried mewn cyflenwyr' a 'chael yr hyfforddiant cywir' oedd y prif heriau i'r aelodau.





Mewnwelediad penodol yn ôl sefydliad

Noder: er rhoddir gwerthoedd % i hwyluso cyfeirio a chymharu, ni ystyrir cyfanswm y niferoedd a oedd yn ymateb o bob sefydliad yn arwyddocaol o safbwynt ystadegau, ac maent yn ddangosol yn unig

Social & Local™

Ffederasiwn Arlwyo Asiaidd (ACF)

Methodoleg:

- Arolwg a hyrwyddwyd ar Twitter a thrwy eu cylchlythyrau e-bost; cynigiwyd cymhelliad i aelodau
- Trafodaethau wyneb yn wyneb ansoddol – hefyd aethon nhw drwy'r arolwg gydag aelodau presennol mewn digwyddiadau yn Belfast ac yn Birmingham.
- Ymatebodd 384 o aelodau.

Proffil Ymatebwyr

- Mae 56% o ymatebwyr yn fusnesau tecawê, a 44% ohonynt yn fwytai
- Mae'r mwyafrif yn gweini bwyd Bangladeshaid/Indiaidd (75%)
- Mae 88% ohonynt yn fusnesau micro (cyflogi 10 neu lai o bobl)
 - mae gan 6% 10-25 o weithwyr; mae gan 6% 50-100 o weithwyr
- Dywedodd 87% fod eu Hawdurdod Lleol yn darparu cyngor yn rhad ac am ddim, a'i fod yn dda ar y cyfan
- Mae gan 69% sgôr CSHB o 4 neu uwch ac maent yn teimlo bod hyn yn cynrychioli eu safonau yn gywir - mae hanner yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth arnynt er mwyn cynnal y sgoriau hyn
 - Mae 50% yn arddangos eu sticer



Ffederasiwn Arlwyo Asiaidd (ACF)

Allwedd: Gwyrdd: cadarnhaol, melyn: ymateb cymysg, coch: negyddol, gwyn: niwtral

<p>Pa mor apelgar yw cofrestru manylach (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">Mae 69% yn gwro tuag at 'cadarnhaol' (sgôr o 6+) – sy'n dynodi eu bod yn agored i'r syniadNid yw ymatebwyr negyddol yn gweld bod angen newid	<p>Proses gofrestru manylach: ar-lein, ffurflen bapur neu'r ddau?</p> <ul style="list-style-type: none">Dywedodd y mwyafrif y ddau (63%)Dywedodd traean ar-lein yn unig (31%) – is nag ymatebwyr o sefydliadau eraill a gymerodd ran	<p>Cofrestru manylach: Pa mor aml y dylai'r ASB wirio bod eich manylion yn gyfredol?</p> <ul style="list-style-type: none">Dywedodd y mwyafrif 'bob blwyddyn' (69%)Dywedodd chwarter 'bob dwy flynedd' (25%)
<p>Pa mor apelgar yw'r syniad o segmentu yn ôl risg (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">Ddim yn apelioRoedd mwyafrif y sgoriau yn 5 neu is (62%)<ul style="list-style-type: none">Rhoddodd chwarter sgôr o 3 neu is (25%)	<p>Rhwystrau i ddarparu bwyd sy'n ddiogel ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label?</p> <p>Problemau yn ymwneud â phobl yw'r prif rai:</p> <ul style="list-style-type: none">'recriwtio'r staff cywir' ac 'ymddiried mewn cyflenwyr' (61%)wedi'u dilyn gan 'cael yr hyfforddiant cywir' (20%)	<p>Sut ydych chi'n sicrhau bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label?</p> <ul style="list-style-type: none">Mae'r mwyafrif yn hyfforddi eu staff eu hunain, ar y safle (40%)Mae 27% yn dibynnu ar gyngor gan awdurdodau lleolMae 13% yn defnyddio cwmni allanol;Ymddengys bod defnydd o deunyddiau ar-lein yn isel
<p>Sut fydddech chi'n sgorio'r system reoleiddio bresennol (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">Mae'r mwyafrif yn gwro tuag at 'cadarnhaol' (rhoddodd 60% sgôr o 6+)Mae traean yn hyrwyddwyr go iawn, yn rhoi sgôr o 8+Roedd y rheiny a roddodd sgôr gadarnhaol yn dweud bod y system o gymorth iddynt	<p>Pa mor werthfawr yw'r CSHB i'ch busnes (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">Ymateb cadarnhaol dros ben, gyda 75% o ymatebwyr yn rhoi sgor o 10Dywedodd ymatebwyr fod sgoriau da wedi gwella busnes	<p>Adborth o ddigwyddiadau:</p> <ul style="list-style-type: none">Byddai gwybodaeth gan ALLau/ASB i'w helpu yn ddefnyddiol, e.e. rhestr wirio chwarterol ar gyfer yr hanfodion hylendid bwydByddant yn parhau i ddarparu bwyd sy'n ddiogel – waeth beth fo amllder ymweliadau gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd



Cymdeithas Gwneuthurwyr Cawsiau Arbenigol (SCA)

Methodoleg:

- Anfonwyd arolwg at eu haelodau drwy e-bost; gydag arian fel cymhelliad.
- Ymatebodd 31 o aelodau.

Proffil Ymatebwyr

- Mae 90% o ymatebwyr yn Lloegr, a 10% yng Nghymru
- Prif fath o weithgynhyrchu: mae'r mwyafrif helaeth yn wneuthurwyr caws (90%)
 - Mae dros draean yn ffermydd llaeth hefyd, ac mae 10% yn gyfanwerthwyr/dosbarthwyr yn unig
 - Ymddengys fod llawer yn fasnachwyr busnes i fusnes yn unig
- Mae 87% yn fusnesau micro (cyflogi 10 neu lai o bobl)
- Dywedodd 87% fod eu Hawdurdod Lleol yn darparu cyngor yn rhad ac am ddim
- Mae gan 48% sgôr CSHB o 4 neu uwch ac maent yn teimlo bod hyn yn cyfleu eu safonau yn gywir (o 27 o ymatebion)
 - Nifer bach ohonynt yn unig sy'n arddangos eu sticer (33%)
 - Dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr nad oedd y CSHB yn gymwys iddynt gan nad ydynt yn wynebu defnyddwyr, nac yn rhan o gynlluniau amgen (e.e. Prif Awdurdod)



Cymdeithas Gwneuthurwyr Cawsiau Arbenigol (SCA)

Allwedd: Gwyrdd: cadarnhaol, melyn: ymateb cymysg, coch: negyddol, gwyn: niwtral

<p>Pa mor apelgar yw cofrestru manylach (graddfa o 1-10)?</p> <p>Ymateb wedi'i rhannu:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae dros draean yn meddwl ei fod yn apelgar (rhoddodd 36% sgôr o 8+)• Ond nid yw'n apelio at bron yr un nifer (rhoddodd 40% sgôr o 5 neu is)	<p>Proses gofrestru manylach: ar-lein, ffurflen bapur neu'r ddau?</p> <ul style="list-style-type: none">• Dywedodd y mwyafrif 'ar-lein' (65%) sy'n dangos eu bod yn gyfforddus yn defnyddio adnoddau digidol• Dywedodd 29% 'papur' ac 'ar-lein'	<p>Cofrestru manylach: Pa mor aml y dylai'r ASB wirio bod eich manylion yn gyfredol?</p> <ul style="list-style-type: none">• Dywedodd 39% 'bob dwy flynedd'• Dywedodd 26% 'bob blwyddyn'• Dywedodd dros draean 'bob tair blynedd neu fwy' (35%)
<p>Pa mor apelgar yw'r syniad o segmentu yn ôl risg (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'n apelio at y mwyafrif (rhoddodd 61% sgôr o 8+). Rhoddodd ychydig dros chwarter sgôr o 5 neu is• Roedd peth bryder am gael eu barnu yn 'risg uwch'	<p>Rhwystrau i ddarparu bwyd sy'n ddiogel ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label?</p> <p>Materion yn ymwneud â phobl yw'r prif rai:</p> <ul style="list-style-type: none">• 'recriwtio'r staff cywir', 'ymddiried mewn cyflenwyr', a 'chael yr hyfforddiant cywir' (61%), gyda 'recriwtio' ar ben y rhestr o bell ffordd	<p>Sut ydych chi'n sicrhau bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label?</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae 84% yn addysgu eu hunain<ul style="list-style-type: none">– Ac mae 65% o'r nifer hwnnw <u>hefyd</u> wedi cael hyfforddiant allanol• Soniwyd am HACCP yn aml; dywedodd un ymatebydd 'brwdfrydedd a synnwyr cyffredin!'
<p>Sut fydddech chi'n sgorio'r system reoleiddio bresennol (graddfa o 1-10)?</p> <p>Ymateb wedi'i rhannu</p> <ul style="list-style-type: none">• Rhoddodd 39% sgôr o 5 neu is• Roedd 29% yn gadarnhaol iawn (sgôr o 8+)• Dywedodd 6% nad oedd y system yn berthnasol iddynt	<p>Pa mor werthfawr yw'r CSHB i'ch busnes (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">• Dywedodd 58% nad oedd y CSHB yn berthnasol iddynt: am eu bod yn fusnesau 'busnes i fusnes' neu fod ganddynt Brif Awdurdod neu safon SALSA• Fe sgoriodd yn isel (55% sgôr o 5 neu is) er bod ychydig dros chwarter o'r ymatebwyr yn hyrwyddwyr (26%)	<p>Pa newidiadau sydd eu hangen?</p> <ul style="list-style-type: none">• Gwell gwybodaeth arbenigol gan yr ASB/Swyddogion lechyd yr Amgylchedd a dealltwriaeth o'r risgiau a'r prosesau perthnasol• Defnyddio archwiliadau allanol yn well (e.e SALSA)• Pryder am orfod talu yn y dyfodol



Cymdeithas Arlwywyr Ledled y Wlad (NCASS)

Methodoleg:

- Arolwg, gyda chymhelliant ariannol (5 x £100 i'w ennill), yn ogystal â'i hyrwyddo drwy e-bost, Twitter, Facebook, eu gwefan a thrwy eu cylchlythyr i 17,958 o danysgrifwyr
- Byddant hefyd yn rhannu'r canfyddiadau (pan yn briodol) yn eu cylchgrawn chwarterol *The Caterer Quarterly*
- Ymatebodd 200 o aelodau.

Proffil Ymatebwyr

- Mae gan NCASS 99% o fusnesau sy'n fusnesau bach a chanolig – yn bennaf, roedd yr ymatebwyr yn fusnesau micro: Mae gan 86% ohonynt 0-5 o weithwyr; Mae gan 8% ohonynt 5-10 o weithwyr
- Roedd 29% o ymatebwyr yn masnachu o gazebos, 31% o gerbydau wedi'u haddasu, gyda 36% yn dweud 'arall'
- Mae'r gyfran fwyaf yn masnachu'n bennaf mewn gwyliau/digwyddiadau (37%), gyda bron i chwarter mewn marchnadoedd bwyd stryd (23%)
- Dywedodd 45% fod eu hawdurdodau lleol yn darparu cyngor yn rhad ac am ddim, ac o'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol, mae bron i hanner ohonynt yn ei weld yn ddefnyddiol (48%)
- Mae gan 85% sgôr o 4 neu 5, ac maent yn dweud ei bod yn cyfleu eu safonau; mae 65% yn arddangos eu sticer



Cymdeithas Arlwywyr Ledled y Wlad (NCASS)

Allwedd: Gwyrdd: cadarnhaol, melyn: ymateb cymysg, coch: negyddol, gwyn: niwtral

<p>Pa mor apelgar yw cofrestru manylach (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">• 49% yn gadarnhaol dros ben (8+) a rhoddodd 65% sgôr o 6 neu uwch• Rhoddodd draean sgôr o lai na 5 (34%)• Ar y cyfan, mae'r syniad yn apelio	<p>Proses gofrestru manylach: ar-lein, ffurflen bapur neu'r ddau?</p> <ul style="list-style-type: none">• Dywedodd 69% 'ar-lein' – nifer sylweddol unwaith eto• Dywedodd 29% y ddau• Adlewyrchu'r tuedd tuag at ddigidol	<p>Cofrestru manylach: Pa mor aml y dylai'r ASB wirio bod eich manylion yn gyfredol?</p> <ul style="list-style-type: none">• Dywedodd 41% 'bob blwyddyn', gyda 34% yn dweud 'bob dwy flynedd'• Dywedodd 19% bob 3 i 5 mlynedd
<p>Pa mor apelgar yw'r syniad o segmentu yn ôl risg (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae dros hanner yn gadarnhaol dros ben (58%)• Rhoddodd 28% sgôr o lai na 5 (roedd 18% ohonynt yn 5)• Roedd masnachwyr â sgôr CSHB o 5 o blaid y syniad	<p>Rhwystrau i ddarparu bwyd sy'n ddiogel ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label?</p> <ul style="list-style-type: none">• Y prif broblem oedd gallu fforddio'r offer cywir (47%), gyda recriwtio yn ail agos (42%)• Dywedodd dros chwarter 'mynediad at systemau technoleg neu ddiogelwch bwyd newydd' (27%); Dywedodd 22% 'hyfforddiant diogelwch bwyd'	<p>Sut ydych chi'n sicrhau bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label?</p> <ul style="list-style-type: none">• Adnoddau ar-lein (67%) a hyfforddiant mewnol (59%) oedd y prif atebion, efallai yn adlewyrchu'r adnoddau mae NCASS yn eu cynnig mewn perthynas â chydymffurfio
<p>Sut fydddech chi'n sgorio'r system reoleiddio bresennol (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">• 45% yn gadarnhaol dros ben (8+) a rhoddodd 66% sgôr o 6 neu uwch• Rhoddodd 21% sgôr o 5• Sy'n nodi, yn gyffredinol, eu bod o'r farn bod y system bresennol yn ymarferol	<p>Pa mor werthfawr yw'r CSHB i'ch busnes (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">• Rhoddodd 61% sgôr o 10, sy'n nodi cefnogaeth hynod o gadarn i'r CSHB, ac yn dystiolaeth o'i werth i arlwywyr symudol• Mae 78% yn hyrwyddwyr (8+); llai na 10% yn difrio'r cynllun	<p>Adborth:</p> <ul style="list-style-type: none">• Er bod segmentu yn ôl risg wedi'i groesawu'n gyffredinol, mae masnachwyr newydd yn pryderu y byddent yn destun gwahaniaethu• Mae rhai busnesau micro yn ofni y bydd gwaith papur yn cynyddu er roedd busnesau bwyd risg isel yn tybio y byddai llai o waith• Mae anghysondeb o ran gwybodaeth Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn llesteirio rhai

Ffederasiwn Masnach Bwydydd (PTF)

Methodoleg:

- E-bostio'r arolwg i aelodau, dim cymhelliad
- Nifer yr ymatebion: 14% o'u haelodau sy'n fusnesau bach a chanolig
 - Dylid nodi felly bod sail yr ymatebion yn fach iawn (8 person)
 - Yn gyffredinol felly rydym wedi defnyddio 'nifer yr ymatebion' yn hytrach na chanran wrth adrodd canlyniadau PTF

Proffil Ymatebwyr

- Ar gyfartaledd, mae ymatebwyr yn fusnesau bach a chanolig mwy o faint, gyda thri yn cyflogi 25-50 o weithwyr, tri yn cyflogi 50-100 ac un yn cyflogi 100-250 (a dim ond un busnes micro, sy'n cyflogi 5-10)
- Maent yn fewnforwyr (tri), gweithgynhyrchwyr (tri) a dosbarthwyr (dau)
- Dywedodd hanner yr ymatebwyr bod eu Hawdurdod Lleol yn darparu cyngor yn rhad ac am ddim; dywedodd pedwar bod y cyngor o gymorth, gydag eraill yn mynd at gymdeithasau masnach, ymgynghorwyr neu adnoddau ar-lein



Ffederasiwn Masnach Bwydydd (PTF)

Allwedd: Gwyrdd: cadarnhaol, melyn: ymateb cymysg, coch: negyddol, gwyn: niwtral

<p>Pa mor apelgar yw cofrestru manylach (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">• Cadarnhaol dros ben, gyda phum aelod yn rhoi sgôr o 8+• Fodd bynnag, rhoddodd dau sgôr o 1 yn unig, gan ddweud bod hunanasesu yn rhy oddrychol a bod gwybodaeth yn gyhoeddus neu ar gael mewn manau eraill	<p>Proses gofrestru manylach: ar-lein, ffurflen bapur neu'r ddau?</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd yn well gan 7 o'r 8 ymatebydd 'ar-lein' (87%!); Roedd 1 o'r 8 eisiau'r ddau• Pleidlais gref o blaid digidol	<p>Cofrestru manylach: Pa mor aml y dylai'r ASB wirio bod eich manylion yn gyfredol?</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal ar draws y pedwar dewis• Roedd y rheiny nad oeddent o blaid y cynllun cofrestru manylach oherwydd y llwyth gwaith pellach wedi dewis cyfnod hirach o amser rhwng gwiriadau
<p>Pa mor apelgar yw'r syniad o segmentu yn ôl risg (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">• Cadarnhaol dros ben, gyda 5 aelod yn rhoi sgôr o 10, ac un yn rhoi sgôr o 8, gan ddweud y byddai'n gwneud gwell ddenfydd o adnoddau• Yr unig sylw negyddol oedd y teimlad na fyddai modd asesu yn wrthrychol drwy ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan weithredwyr busnesau bwyd	<p>Rhwystrau i ddarparu bwyd sy'n ddiogel ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label?</p> <ul style="list-style-type: none">• Dewiswyd yr ystod lawn o ymatebion a awgrymwyd i wahanol raddau, gydag 'ymddiried yn eich cyflenwyr' yn cael ei grybwyll fwyaf• Heb annogaeth, soniodd tri aelod hefyd am archwiliadau ffatri a rheoli'r baich archwilio	<p>Sut ydych chi'n sicrhau bod bwyd yn ddiogel a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label?</p> <ul style="list-style-type: none">• 'Gwella sgiliau staff yn fewnol' oedd yn cael ei grybwyll fwyaf yn ogystal â• 'defnyddio ymgynghorwyr allanol'• Heb anogaeth, soniodd tri aelod am achredu gan drydydd parti, megis tystysgrif BRC
<p>Sut fydddech chi'n sgorio'r system reoleiddio bresennol (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">• Ymateb cymysg, gyda dau aelod yn rhoi sgôr isel iawn (3) ac un yn sgorio 10• Roedd sylwadau yn sôn am ddiffyg adnoddau, staffio annigonol, dealltwriaeth gyfyngiedig o fusnesau, gwaith gorfodi anghyson, a diffyg cyngor heb fod cost ychwanegol ynghlwm	<p>Pa mor werthfawr yw'r CSHB i'ch busnes (graddfa o 1-10)?</p> <ul style="list-style-type: none">• Gan fod y cwmnïau hyn yn bennaf yn rhai 'busnes i fusnes', nid yw'r CSHB yn berthnasol iddynt• Roedd sgoriau yn isel (rhoddodd 5 person sgôr is na 3)• Roedd rhai yn cydnabod gwerth y CSHB i ddefnyddwyr, ond roeddent yn amau pa mor ddibynadwy yr oedd ar sail arolygiad undydd	<p>Adborth:</p> <ul style="list-style-type: none">• Teimlai cefnogwyr cofrestru manylach y byddai'n gwella ymwybyddiaeth gyffredinol o berchnogion a diogelwch busnesau; roedd y rheiny nad oedd yn ei gefnogi yn ofni llwyth gwaith ychwanegol a mân-reolau• Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai segmentu yn ôl risg yn helpu i ganolbwyntio adnoddau ar weithredwyr a oedd yn cydymffurfio'n wael; maent am i'r system newid o fod yr 'un peth i bawb'





Atodiad: (Holiadur - Saesneg yn unig)

Social & Local™



SME Consultation

Survey baseline questions – final version

21 April 2017

Please use these questions and amend them to match your tone of voice and add in any relevant examples. Thank you.

Introduction

The Regulating our Future (ROF) programme from the Food Standards Agency (FSA) will change the way food businesses are regulated and inspected across England, Wales and Northern Ireland. The aim is to have a new system in place by 2020.

The FSA is keen to ensure that small businesses have an opportunity to voice any concerns and suggestions they may have to improve the way in which food regulation is undertaken. They want to make it work better for everyone, including when the UK exits the EU. Some development work has already been done, working with the food industry and Local Authorities. We are sharing it with you today for your comment and input, from a small business perspective.

Your answers will remain strictly confidential and will not be attributable to your individual business.

Thank you for taking the time help shape the future of food regulation.

Questions

About your business:

Please can you tell us a little bit of information about your business:

1. What type of business do you own or work in?

Social & Local CIC



[please add types of business in here relevant to your members]

2. How many employees work there?

Please circle your answer:

- 0 – 5
- 5 – 10
- 10 – 25
- 25 – 50
- 50 – 100
- 100 – 250

Enhanced registration

Currently when food businesses set up they should fill in a form and send it off to their Local Authority to register. The form only collects a small amount of data about the business.

As part of the new food business model for regulation the FSA are considering an **enhanced registration** approach.

This approach would ask business owners for more details about their business such as who owns it, what qualifications they have, their experience and who is responsible for the food. This extra information will allow the FSA to be sure that each business understands what is expected of them, and is better supported to meet the standards.

3. On a scale of 0-10, where 1 is 'not at all appealing' and '10 is extremely appealing', how appealing is the proposed enhanced registration approach to your business?

Please circle your answer:

- 1
- 2
- 3
- 4
- 5
- 6
- 7
- 8
- 9
- 10

Social & Local CIC





Social & Local™

a. Please give reasons for your choice of score

4. Would you prefer the enhanced registration process to be online or a paper form?

Please circle your answer

- a. Online
- b. Paper
- c. Or both

5. Thinking about how often things change in your business, how often would you like the FSA to check with you that the details you gave in the enhanced registration approach are up to date?

Please circle your answer

- a) Every year
- b) Every two years
- c) Every three years
- d) Every five years



Social & Local CIC



Social & Local™

Segmentation

The extra detail collected as part of the enhanced registration approach would also be used by the FSA to segment businesses according to risk. If your business is viewed as being a lower risk then there could be less frequent inspections. For example, if you only sold pre-packaged food, the business had a history of good compliance or there was a consistent '5' FHRs rating you could be considered low risk.

6. On a scale of 0-10, where 1 is 'not at all appealing' and 10 is 'extremely appealing' how appealing is the idea of risk segmentation?

Please circle your answer:

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

a. Please give reasons for your choice of score

Assurance and standards

7. As a micro, small or medium sized business what are the challenges and barriers you face in providing food that is safe and is what it says it is?

Please circle all that apply (you can circle as many as you like)

- a) Getting the right training on food safety?
- b) Recruiting the right staff?



Social & Local CIC



A community interest company



- c) Trusting your suppliers?
- d) Being able to afford the right equipment?
- e) Access to new technology or food safety management systems?
- f) If there's something else, please give us details below:

8. What do you currently do as a business to make sure your food is safe and what it says it is for your customers?
Please circle all that apply (you can tick as many as you like)

- a) Upskilling and or training staff on food safety and management yourself?
- b) Upskilling and or training staff on food safety and management with an external company?
- c) Upskilling and or training staff on food safety and management by advice from the Local Authority?
- d) Using online tools to develop a food safety management system?
- e) If there's something else, please give us details below:



Current regulation

9. Thinking about how the existing regulation system works i.e. Local Authority inspections and enforcement with your business operation, how practical is it:
On a scale of 1 -10, where 1 is 'not at all practical' and 10 is 'extremely practical' how would you score its practicality?

Please circle your answer:

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

- a) Please give reasons for your choice of score

10. Does your Local Authority provide free advice?

Please circle your answer:

- a) Yes
- b) No
 - i) If 'yes', is it valuable to you? And do they provide the advice and support that you need? Please give details





Social & Local™

ii) If no where do you get your advice? Please give details

Food Hygiene Rating Scheme

11. Thinking about the Food Hygiene Rating Scheme (the green and black sticker that you can display with your hygiene rating)

On a scale of 1 -10, where 1 is 'not at all valuable' and 10 is 'extremely valuable', how valuable is the Food Hygiene Rating Scheme to your business?

Please circle your answer:

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

a) Please give reasons for your choice of score

12. Again, thinking about the Food Hygiene Rating Scheme (FHRS) please circle all statements that apply to your business:

a) My business has a score of 3 or less and the scheme motivates me to improve my score



Social & Local CIC



Social & Local™

- b) My business has a score of 3 or less but it's not clear what I need to do to improve
- c) My business has a score of 4 or 5 and the scheme accurately represents our food hygiene standards
- d) My business has a score of 4 or 5 but I need more information to maintain that standard
- e) I/we display the sticker
- f) If there's something else, please give us details below:

13. And lastly, what **one thing** would you change about the way food businesses are currently regulated?

Thank you for your input.



Social & Local CIC



